WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o gymryd camau i ddiwygio trefniadau casglu gwastraff, gan gefnogi'r amcan llesiant i gyflawni amgylchedd deniadol ac wedi ei warchod – **Cyngor Sir Ddinbych**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1616A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Dave Wilson, Jeremy Evans, Gwilym Bury a Bethan Roberts dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi dechrau cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth weithredu i'w gyflawni. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach yn ei brosesau penderfynu a chynllunio.


Adroddiad cryno

Pam y cynhalion ni'r Archwiliad 4

Yr hyn y gwnaethom ei archwilio 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

Mae cynlluniau'r Cyngor ar gyfer newidiadau i'r gwasanaeth gwastraff yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn am y cyd-destun lleol a chenedlaethol ac yn awr mae angen iddo sicrhau ei fod yn datblygu strategaeth gwastraff fwy hirdymor ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i gyflwyno'r gwasanaeth newydd yn 2021 sy'n gyson â strategaethau newydd gan Lywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg 6

Mae'r Cyngor yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'n ceisio'i atal o ganlyniad i newidiadau i'w drefniadau gwastraff ac ailgylchu, ond mae'n dal wrthi'n datblygu ei gynlluniau i wreiddio rhai o'r newidiadau mewn ymddygiad sy'n angenrheidiol i roi cymorth i gyflwyno'r model newydd a datblygu cynllun gwireddu manteision ar gyfer y gwasanaeth newydd 7

Mae'r Cyngor yn deall manteision ehangach posibl y Cam hwn, ond nid yw'r manteision wedi'u diffinio'n dda o fewn cynlluniau gweithredol gwasanaethau eraill y Cyngor eto 8

Mae gan y Cyngor rai mentrau cydweithio sydd wedi hen ennill eu plwyf ac mae wedi adnabod cyfleoedd pellach fel rhan o gyflawni'r Cam hwn. Fodd bynnag, fe allai wneud mwy i asesu effeithiolrwydd trefniadau nad yw'r Cyngor yn eu cyllido'n uniongyrchol, er enghraifft cydweithio gyda'r trydydd sector neu ar lefel gymunedol 9

Mae'r Cyngor wedi cynnwys trigolion lleol wrth wneud newidiadau i wasanaethau gwastraff; fodd bynnag, mae'n cydnabod yr angen am ymgysylltu a gydgysylltir ac a dargedir yn fwy cyn y newidiadau i wasanaethau 10

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a pennu eu hamcanion llesiant; a

b cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom rhwng mis Mehefin 2019 a mis Medi 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i ddiwygio'r trefniadau casglu gwastraff cartref, cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i ddiwygio trefniadau casglu gwastraff, gan gefnogi'r amcan llesiant i gyflawni amgylchedd deniadol ac wedi ei warchod.

9 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen **Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**[1] Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad fod y Cyngor wedi dechrau cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth weithredu i'w gyflawni. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach yn ei brosesau penderfynu a chynllunio.

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae cynlluniau'r Cyngor ar gyfer newidiadau i'r gwasanaeth gwastraff yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn am y cyd-destun lleol a chenedlaethol ac yn awr mae angen iddo sicrhau ei fod yn datblygu strategaeth gwastraff fwy hirdymor ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i gyflwyno'r gwasanaeth newydd yn 2021 sy'n gyson â strategaethau newydd gan Lywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

11 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

12 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r amseru ar gyfer y newid hwn i wasanaeth yn seiliedig ar angenrheidiau yn y tymor byr/canolig fel a ganlyn:
  – barn gadarnhaol ymhlith y cyhoedd ynglŷn â'r angen am drefniadau ailgylchu gwell;
  – angenrheidiau ariannol ac economaidd i newid;
  – mae cyfraddau ailgylchu'r Cyngor yn uchel, sef 64%, ond maent wedi gwastatau ac efallai na fyddant yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru o 70% yn y dyfodol;
  – nid yw trefniadau casglu'n dilyn glasbrint Llywodraeth Cymru; ac
  – mae lefel dda o ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig a chefnogaeth iddynt ymhlith aelodau'r Cyngor.

[2] Gweler Atodiad 1

14 Canfuom y cyfle canlynol:

- gallai'r Cyngor ystyried dull mwy hirdymor y tu hwnt i'r broses gyfredol i gyflwyno'r gwasanaeth yn 2021, gan ystyried tueddiadau hirdymor, demograffeg a chyfleoedd yn y dyfodol megis newidiadau mewn technoleg a'r effaith ar y gweithlu.

## Mae'r Cyngor yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'n ceisio'i atal o ganlyniad i newidiadau i'w drefniadau gwastraff ac ailgylchu, ond mae'n dal wrthi'n datblygu ei gynlluniau i wreiddio rhai o'r newidiadau mewn ymddygiad sy'n angenrheidiol i roi cymorth i gyflwyno'r model newydd a datblygu cynllun gwireddu manteision ar gyfer y gwasanaeth newydd

### Yr hyn y chwilion ni amdano

15 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

16 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'n bwriadu ei leihau. Mae hyn yn cynnwys swm y gwastraff gweddillol, defnydd o danwydd/allyriadau cerbydau casglu, gwastraff deunydd pacio anailgylchadwy diangen gan ddarparwyr a sbwriel a achosir gan wylanod yn difrodi sachau gwastraff; ac
- mae'r Cyngor hefyd yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'n bwriadu ei wella. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth well am yr angen i ailgylchu, gwybodaeth am wastraff ailgylchu pobl, cymorth i'r rhai y mae ei angen arnynt a chynwysyddion casglu mwy hyblyg i ddiwallu anghenion unigol

18 Canfuom y cyfleoedd canlynol:

[3] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn dal heb ddatblygu ei ddull o roi rhai newidiadau ar waith:
  – cytundeb i wella'r modd y caiff arferion o ran gwastraff ac ailgylchu eu monitro;
  – annog darparwyr i leihau deunydd pacio anailgylchadwy;
  – pennu targedau ar gyfer ffactorau allweddol a fydd yn galluogi'r newidiadau i drefniadau gwastraff; a
  – monitro effeithiolrwydd y newidiadau i drefniadau gwastraff.

## Mae'r Cyngor yn deall manteision ehangach posibl y Cam hwn, ond nid yw'r manteision wedi'u diffinio'n dda o fewn cynlluniau gweithredol gwasanaethau eraill y Cyngor eto

### Yr hyn y chwilion ni amdano

19 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

20 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn cydnabod manteision posibl sy'n deillio o'r cam hwn:
  – gallai lleoliad y safle ar gyfer y depo newydd ryddhau bargen ar gyfer tir lleol;
  – gallai pobl agored i niwed gael eu diogelu'n well trwy weithredu a monitro microsglodion ar finiau i ddarparu rhybuddion;
  – cydgysylltu newidiadau'n well â gwasanaethau eraill i wella'r amgylchedd lleol megis glanhau strydoedd a gwacáu gylïau;
  – mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i fynd i'r afael ag effaith negyddol bosibl y newidiadau hyn megis tipio anghyfreithlon a chostau is i fusnesau trwy beidio ag ailgylchu; ac

[4] Gweler Atodiad 1

– mae'r Cyngor yn gweithio gyda Dŵr Cymru i archwilio'r potensial i droi biniau gwastraff sydd dros ben yn gasgenni dŵr.

22 Canfuom y cyfleoedd canlynol:

- eglurder ynglŷn â manteision posibl trefniadau gweithio mwy integredig rhwng gwasanaethau'r Cyngor a chyrff eraill, er enghraifft cynghorau eraill; a
- chynnwys y Cam a manteision ehangach yng nghynlluniau gwasanaethau eraill y Cyngor a chynlluniau gwasanaeth cyrff cyhoeddus eraill, er enghraifft y gwasanaethau cymdeithasol a thai.

## Mae gan y Cyngor rai mentrau cydweithio sydd wedi hen ennill eu plwyf ac mae wedi adnabod cyfleoedd pellach fel rhan o gyflawni'r Cam hwn. Fodd bynnag, fe allai wneud mwy i asesu effeithiolrwydd trefniadau nad yw'r Cyngor yn eu cyllido'n uniongyrchol, er enghraifft cydweithio gyda'r trydydd sector neu ar lefel gymunedol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

23 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

24 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuom

25 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn cydweithio ac yn gweithio'n effeithiol gyda'r canlynol ar hyn o bryd:
  – WRAP
  – y trydydd sector
  – cynghorau eraill yng ngogledd Cymru

26 Canfuom y cyfleoedd canlynol:

[5] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor wedi adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach lle mae'r canlynol yn y cwestiwn:
  - gwneud gwastraff ac ailgylchu'n rhan o'r drwydded/cytundeb sy'n ei gwneud yn glir beth ddisgwylir gan denantiaid a beth yw eu cyfrifoldebau;
  - mwy o ailgylchu tecstilau trwy'r trydydd sector; a
  - chwblhau dull gorfodi Gogledd Cymru ar gyfer y rhai sy'n ailgylchu'n anghywir.
- gallai'r Cyngor adolygu sut y mae trefniadau cydweithredol gyda'r trydydd sector a grwpiau cymunedol yn effeithiol ac a yw mentrau cydweithio'n cael eu cynllunio'n strategol ynteu'n cael eu hystyried yn drefniadau annibynnol o fewn y gwasanaeth gwastraff.

## Mae'r Cyngor wedi cynnwys trigolion lleol wrth wneud newidiadau i wasanaethau gwastraff; fodd bynnag, mae'n cydnabod yr angen am ymgysylltu a gydgysylltir ac a dargedir yn fwy cyn y newidiadau i wasanaethau

### Yr hyn y chwilion ni amdano

27 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

28 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuom

29 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â phreswylwyr ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu fel a ganlyn:
  - cafwyd cyfanswm o 2,000 o ymatebion i holiadur trwy arolwg ar-lein y Cyngor, mewn sir â 45,000 o gartrefi;

[6] Gweler Atodiad 1

  - cynhaliwyd digwyddiadau mewn amryw leoliadau i egluro’r angen am newidiadau mewn ymddygiad;
  - gwaith mewn ysgolion i helpu i addysgu plant a’u rhieni – yn arbennig o falch bod y cyhoedd wedi derbyn y gwaith Biogen yn Llanelwy; a
  - mentrau amrywiol i gyfleu’r neges ynglŷn ag ailgylchu megis hyrwyddwyr gwastraff bwyd, fideos a negeseuon trydar.

30 Canfuom y cyfleoedd canlynol:

- mae’r Cyngor yn cydnabod yr angen i wneud gwaith ymgysylltu pellach megis:
  - mae’r matrics Cyd-ddibyniaethau Prosiectau yn nodi’r angen am staff ychwanegol i ymdrin â niferoedd uwch o alwadau yn ystod y broses o roi’r prosiect ar waith;
  - digwyddiadau ymgysylltu i roi cymorth i gyflawni’r prosiect hwn;
  - gweithio gydag ysgolion i helpu i addysgu plant a’u rhieni a hybu newid mewn ymddygiad/annog pobl i newid eu hymddygiad;
  - cyfleoedd i ysgolion a grwpiau eraill ymweld â chanolfannau ailgylchu – ond nid yw’r cyfleusterau ymwelwyr wedi’u sefydlu eto ar gyfer y cyfleuster troi gwastraff yn ynni rhanbarthol;
  - gallai’r Cyngor ddysgu o’r gyfradd ymateb isel i’w arolwg diweddar – a wnaeth dargedu’r grwpiau cywir, a oedd y dull yn iawn ac a oedd yr ymateb yn rhoi cynrychiolaeth addas;
  - mwy o sioeau teithiol ac ymgynghori ynghylch manylion y newidiadau i drefniadau gwastraff ac ailgylchu megis lliw biniau ac ati, ac ymgyrch mawr lle mae gwastraff bwyd yn y cwestiwn;
  - mae’r Cynllun Cyfathrebu, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2018, yn disgrifio ystod o ddulliau cyfathrebu ond nid yw wastad yn nodi targed y cyfathrebu; ac
  - mae teulu lleol yn rhan o waith i annog eraill i ailgylchu mwy – a allai’r Cyngor wneud mwy?

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

31 Ar ôl cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynom ni ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Medi 2019 yr oedd swyddogion o Dîm Cynllunio Strategol Gwasanaeth yr Amgylchedd a Phriffyrdd a'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol yn bresennol ynddo. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a myfyrio ymhellach ynghylch ein canfyddiadau mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

32 **Hirdymor**

**Thema: Datblygu Strategaeth hirdymor o ran Gwastraff, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, yn ogystal â datblygu cynllun gwireddu manteision.**

**Camau gweithredu penodol:**

- datblygu strategaeth a chynllun cyflawni ehangach ar gyfer gwastraff sy'n cwmpasu'r gwasanaeth gwastraff yn ei gyfanrwydd, ac yn cysylltu â strategaeth Llywodraeth Cymru;
- datblygu strategaeth gyfathrebu hirdymor y tu hwnt i 2021; a
- datblygu Cynllun Gwireddu Manteision sy'n cael ei dracio yn ystod y broses o roi'r prosiect ar waith a'r tu hwnt i hynny.

33 **Atal**

**Thema: Hybu newid diwylliant, ac optimeiddio cydweithio.**

**Deall effaith newidiadau mewn gwasanaethau trwy sefydlu llinellau sylfaen a mesurau ar gyfer perfformiad gwasanaethau.**

**Camau gweithredu penodol:**

- ailstrwythuro swyddogaethau cefn swyddfa i ategu'r newid yn y gwasanaeth gan newid i weithio ar sail ardaloedd i optimeiddio cydweithio ac ymgysylltu;
- mesur safonau gwasanaeth sylfaen er mwyn deall sut y mae'r newidiadau'n effeithio ar hyn; a
- mabwysiadu'r defnydd o normio cymdeithasol yn fwy eang mewn hyfforddiant a negeseuon a phwniadau a arweinir gan gymunedau, a hynny wedi'i wreiddio yn ein strategaeth newid ymddygiad.

34 **Integreiddio**

**Thema: Sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu hymgorffori mewn cynlluniau busnes ar draws gwasanaethau.**

**Camau gweithredu penodol:**

- sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cynnwys yng nghynlluniau gweithredol gwasanaethau perthnasol (camau gweithredu ar y cyd); a hefyd
- y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu i weithio gyda Gwasanaethau eraill yn y Cyngor i adnabod a dwyn manteision ychwanegol i Ddinasyddion a chyflogeion Sir Ddinbych a'r Cyngor o ganlyniad i'r newidiadau i'r model Casglu Gwastraff ac i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cofnodi a'u monitro trwy broses cynllunio busnes y Cyngor lle y bo'n briodol (yn gysylltiedig â'r Cynllun Gwireddu Manteision).

35 **Cydweithio**

**Thema: Ffurfioli trefniadau gyda chymunedau a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau.**

**Camau gweithredu penodol:**

- sicrhau bod unrhyw drefniadau ffurfiol yn y dyfodol gyda sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol yn cael eu cydnabod trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth y cytunwyd arno.

36 **Cynnwys**

**Thema: Datblygu strategaeth gyfathrebu gyda ffocws ar ddull wedi'i dargedu, sy'n addysgu ac yn rhannu gwybodaeth ar yr adeg briodol.**

**Camau gweithredu penodol:**

- cyfathrebu wedi'i dargedu'n fwy gyda grwpiau dynodedig a mecanweithiau/sianeli a fydd yn cael eu defnyddio a'u mesur, gyda golwg ar oleuo gweithgareddau cyfathrebu yn y dyfodol;
- ystyried datblygu hyrwyddwyr cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd megis Gorllewin y Rhyl, lle mae ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol yn aml yn gryn her;
- cartrefi a lleoliadau anodd i'w cyrraedd/sy'n gryn her – cael dealltwriaeth trwy grŵp ffocws i helpu i ddylunio a darparu gwasanaethau;
- rhoi'r cynllun ymgysylltu ar waith unwaith y bydd yr amser yn iawn;
- defnyddio 'porth ymgysylltu' i gynnwys/hyrwyddo'r newid i'r gwasanaeth;
- creu cyfleoedd hygyrch yng nghanol trefi ac ardaloedd eraill â nifer uchel o ymwelwyr i ymgysylltu â phreswylwyr lleol i hyrwyddo newidiadau mewn ymddygiad sy'n ffafrio ailgylchu a newidiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol;

- trwy’r rhaglen Eco-sgolion (Cadwch Gymru’n Daclus) datblygu dulliau dysgu rhaeadrol i sicrhau bod negeseuon a chyfarwyddiadau cywir yn cyrraedd ein haelwydydd;
- defnyddio offer ar y rhyngrwyd a’r cyfryngau cymdeithasol, e.e. PlayBuzz, i egluro beth ellir ac na ellir ei ailgylchu – defnyddio ysgolion i helpu i hyrwyddo’r wefan;
- cynnwys athrawon trwy dalu am staff cyflenwi/staff wrth gefn, i ddatblygu deunydd addysgol sy’n atgyfnerthu negeseuon ailgylchu ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych; a
- pharhau i ddathlu gwaith ysgolion a grwpiau lleol a’u hannog i rannu arfer gorau ymysg ei gilydd trwy wobrau blynyddol.

37 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi’r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i’r afael â’r meysydd i’w gwella yr ydym wedi’u hadnabod yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 2: Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

Mae’r tabl isod yn nodi ‘dangosyddion cadarnhaol’ ar gyfer pob un o’r pum ffordd o weithio yr ydym wedi’u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio’r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau ar ôl ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

| Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
| --- |
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae ‘hirdymor’ yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni’r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a’r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio’r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau’r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi’u nodi lle bydd deilliannau’n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |

| Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio ataliol yn llawn? |
| --- |
| • Mae’r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i’r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy’n pontio’r cenedlaethau.<br>• Mae’r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi’r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae’r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy’n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy’n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru